CEWC CYMRU

COUNCIL FOR EDUCATION IN WORLD CITIZENSHIP - CYMRU

NEWSLETTER

WINTER

06/07

Active citizenship for Wales and the world

SCHOOL COUNCILS – WE CAN HELP!

CEWC-Cymru welcomes new legislation which requires all schools in Wales to give pupils a say in school life. Whatever challenges are posed to our colleagues by the changes, we are here to help.

The new law requires that every school sets up a school council, which should have held at least one meeting by 1 November 2006. In addition, secondary schools' governing bodies must include two student representatives. CEWC-Cymru's Kate Wolstenholme is working with a Welsh Assembly Government team to ensure that teachers can access advice on school councils. She has led training sessions in Cardiff, Treorchy, Brecon, Cwmbran and Ebbw Vale, and also offers support to Pupil Referral Units and special schools.

Whether you need help with establishing your school council's procedures, or whether you are seeking to enhance existing democratic activities in school, contact **katewolstenholme@wcia.org.uk** for further information. Training courses can be tailored to your school's needs, and often include students as well as staff.

CEWC-Cymru has also contributed to a school councils website, **www.schoolcouncilswales.org.uk**.

NEW PACK COVERS SKILLS FOR DEMOCRACY

As well as helping schools to run effective councils, a new CEWC-Cymru teachers' resource can help 13-16 year-old students to develop the skills they need to take part in democracy. The *Skills for Democracy* pack includes lesson plans, teachers' guidance, worksheets and a pupils' booklet, and explores democratic participation through six topic areas: choosing the perfect candidate, the role of charities, non-formal democracy, Fairtrade, the role of the media, and devolution. The resource is available in English and Welsh versions. It will be followed by a second pack in spring 2007, produced in conjunction with the Hansard Society, which will include advice on running mock National Assembly for Wales elections in school.

Skills for Democracy costs £10 for a pack in Welsh or English only, or £15 for a bilingual pack. Please make cheques payable to CEWC-Cymru and send to: CEWC-Cymru, Temple of Peace, Cathays Park, Cardiff CF10 3AP.

We thank the Electoral Commission for its continued support of our work on democracy in schools.

www.cewc-cymru.org.uk

AUSTRALIA WIN IN WALES…

July saw Australia maintain their remarkable record in competitive debating, by winning the World Schools Debating Championships for the fourth year running. Proposing the motion *"This House believes that democracy is the best system of government for every nation"* at the tournament's Grand Final, they beat Ireland by 5 judges' votes to 2. The event was staged at Cardiff's City Hall and hosted by the BBC's Huw Edwards.

300 people from 36 countries took part in the World Championships, which was run by the **Welsh Centre for International Affairs** (WCIA) with assistance from CEWC-Cymru and the Wales Debating Federation. They included first-time competitors Lesotho, Montenegro and Botswana. Debates took place in 27 schools in south and west Wales, as well as at the Millennium Stadium, Llandaff Cathedral, Caerphilly Castle and Cardiff University.

Wales performed particularly well at the tournament, achieving a ranking of 5th place after winning 7 of its 8 preliminary round debates. However, the team was defeated by Australia in the first knock-out round.

A 35-minute DVD is now available, covering all aspects of the event and featuring interviews and extracts from debates. Produced by the organisation **media4schools**, it costs £12 and can be ordered by e-mailing **jamalmaxey@wcia.org.uk**.

The WCIA thanks all of its World Championships sponsors, particularly the Welsh Assembly Government, Cardiff County Council, Torfaen County Borough Council, Newport City Council, Carmarthenshire County Council, BBC Wales, LexisNexis Butterworths, British Council Wales, The Electoral Commission, United Nations Population Fund and the European Commission.

…WALES TO VISIT SEOUL

The next World Schools Debating Championships takes place in Seoul, South Korea in July 2007, and Wales's team has already been selected.

A record 57 schools and colleges took part in the 2006 Julian Hodge Bank Wales Schools Debating Championships, debating topics including nuclear power, formal prayer sessions in state schools, the construction of 'super casinos', and the use of on-the-spot justice. Following quarter- and semi-finals in early November, the Final took place on 24 November at the Temple of Peace, Cardiff. Craig Williams and Lucy Simons of Elfed High School (Buckley) proposed the motion "This House would begin immediate withdrawal of Coalition troops from Iraq". Their opponents were Claire Fitter and David Gregory of Howell's School, Cardiff. After a tense and impressive debate, the judging panel of Julie Morgan MP, Sharon Bloomfield (Julian Hodge Bank), Bethan James (Wales Debating Federation), Amy Daughton (Cardiff County Council) and Martin Pollard (CEWC-Cymru) judged Howell's to be the winners.

Claire and David's victory (above) meant that they were selected automatically for the team that will represent Wales at the 2007 World Championships. Three further individuals were later selected to join them: Aled Richards-Jones (Queen Elizabeth High School, Carmarthen), Bethan Greaves (Builth Wells High School) and Ellen Robertson (Pencoed School, Bridgend).

THINK ABOUT IT

CEWC-Cymru's training courses in thinking skills are proving popular, so get in touch soon if you would like to book one for the spring or summer term. We offer the following:

- 2-day courses in the Philosophy for Children (P4C) method, certified by SAPERE
- 1-day introductory courses linking global citizenship, thinking skills, P4C and Personal and Social Education
- Demonstration P4C sessions in the classroom

P4C training can be provided for both primary and secondary schools. Recent courses have involved headteachers in Blaenau Gwent, primary teachers in the Rhayader and Llandrindod Wells areas, and a joint course held with Welshpool High School and its surrounding primary schools.

Contact **martinpollard@wcia.org.uk** for more information.

INCLUDING EVERYONE

***Inc*lusion**, CEWC-Cymru's project to develop citizenship skills among disadvantaged young people, is now 'going mainstream'. Assistant Education Officer Kate Wolstenholme has so far worked with special schools, Pupil Referral Units and secure units, helping students to use clay animation to express ideas and opinions. This work is now available to secondary schools, and usually takes the form of a demonstration session with Kate, followed by the provision of written materials and support to teachers.

Contact **katewolstenholme@wcia.org.uk** if you would like to get involved.

EUROPEAN YOUTH PARLIAMENT

In November, CEWC-Cymru organised two Forums of the **European Youth Parliament**, an international competition for young people which focuses on skills of teamwork, public speaking and research. The North Wales Forum, which took place in Bangor Town Hall, was won by Elfed High School, Buckley. The South Wales event, in the former Chamber of the National Assembly for Wales in Cardiff Bay, was won by Gorseinon College, Swansea. We wish both teams well in the next stage of the competition, a UK Selection Conference in Durham in September 2007.

SPRING 2007 EVENTS

- An **in-service training day on debating** (organised in conjunction with the Wales Debating Federation and the English-Speaking Union) took place at the Temple of Peace, Cardiff, on 19 January 2007.
- Four **Model United Nations conferences** will take place in March, giving students in south-east and north Wales the opportunity to negotiate international solutions to important global issues. E-mail **cewc@wcia.org.uk** if you are interested in taking part.

Open up the newsletter for a poster about **crimes against humanity**. This includes an activity from the new edition of *Citizenship Today*, CEWC-Cymru's online teachers' resource. The full resource will be available in March.

Design elfen.co.uk

TEL (029) 2022 8549 FAX (029) 2064 0333 E-MAIL cewc@wcia.org.uk Reg. charity no. 1048759

CEWC-CYMRU TEMPLE OF PEACE • CATHAYS PARK • CARDIFF • CF10 3AP

CEWC CYMRU

CYNGOR ADDYSG MEWN DINASYDDIAETH BYD - CYMRU

CYLCHLYTHYR GAEAF 06/07

Dinasyddiaeth weithredol i Gymru ac i'r byd

CYNGHORAU YSGOL – FE ALLWN NI HELPU!

Mae CEWC-Cymru yn croesawu'r ddeddfwriaeth newydd sy'n mynnu bod pob ysgol yng Nghymru yn rhoi llais i'r disgyblion ym mywyd yr ysgol. Pa her bynnag y bydd y newidiadau hyn yn ei chynnig i'n cydweithwyr ym myd addysg, rydym yma i helpu.

Yn ôl y ddeddf newydd, mae hi'n ofynnol i bob ysgol sefydlu cyngor ysgol a chynnal o leiaf un cyfarfod o'r cyngor erbyn 1 Tachwedd 2006. Yn ogystal â hyn, dylai cyrff llywodraethol ysgolion uwchradd gynnwys o leiaf dau gynrychiolydd o blith y disgyblion. Mae Kate Wolstenholme o CEWC-Cymru yn gweithio gyda thîm o Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y gall athrawon ddod o hyd i wybodaeth am gynghorau ysgol. Bu'n arwain sesiynau hyfforddi yng Nghaerdydd, Treorci, Aberhonddu, Cwmbrân a Glyn Ebwy. Mae hi hefyd yn cynnig cefnogaeth i Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion arbennig.

Os oes angen cymorth arnoch chi wrth sefydlu gweithdrefnau eich cyngor ysgol, neu os ydych yn awyddus i gyfoethogi'r gweithgareddau democrataidd sydd ar waith yn yr ysgol yn barod, cysylltwch â **katewolstenholme@wcia.org.uk** am ragor o wybodaeth. Mae modd teilwrio cyrsiau hyfforddi at anghenion eich ysgol, ac yn aml byddant yn cynnwys disgyblion yn ogystal ag aelodau o'r staff.

Mae CEWC-Cymru hefyd wedi cyfrannu i wefan ar gynghorau ysgol, **www.schoolcouncilswales.org.uk**

PECYN NEWYDD SY'N TRAFOD SGILIAU AR GYFER DEMOCRATIAETH

Yn ogystal â chynorthwyo ysgolion i gynnal cynghorau effeithiol, gall adnodd CEWC-Cymru ar gyfer athrawon helpu disgyblion 13-16 oed i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cymryd rhan mewn democratiaeth. Mae'r pecyn *Sgiliau ar gyfer Democratiaeth* yn cynnwys cynlluniau gwersi, arweiniad i athrawon, taflenni gwaith a llyfryn i ddisgyblion, ac mae'n archwilio cyfranogiad democrataidd trwy gyfrwng chwe maes pwnc: dewis yr ymgeisydd perffaith, elusennau a'u gwaith, democratiaeth anffurfiol, Masnach Deg, swyddogaeth y cyfryngau, a datganoli. Mae'r adnodd ar gael yn Gymraeg, yn Saesneg neu yn ddwyieithog. Bydd ail becyn yn dilyn yng ngwanwyn 2007. Cynhyrchir hwn ar y cyd â Chymdeithas Hansard, a bydd yn cynnwys cyngor ar gynnal ffug-etholiadau Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr ysgol.

Cost *Sgiliau ar gyfer Democratiaeth* yw £10 am becyn yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig, neu £15 ar gyfer pecyn dwyieithog. Anfonwch sieciau (yn daladwy i CEWC-Cymru) at: CEWC-Cymru, Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3AP os gwelwch yn dda.

Diolchwn i'r Comisiwn Etholiadol am ei gefnogaeth unwaith eto i'n gwaith ar ddemocratiaeth yn yr ysgolion.

www.cewc-cymru.org.uk

AWSTRALIA YN ENNILL YNG NGHYMRU…

Ym mis Gorffennaf gwelwyd Awstralia yn dal ati i gynnal ei record wych ym maes dadlau cystadleuol, trwy ennill Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion y Byd am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Gan gynnig bod *"Y Tŷ hwn yn credu mai democratiaeth yw'r system lywodraethu orau ar gyfer pob cenedl"* yng Ngornest Derfynol y gystadleuaeth, llwyddasant i guro Iwerddon o 5 pleidlais gan y beirniaid i 2. Cynhelid y digwyddiad yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, gyda Huw Edwards o'r BBC yn llywyddu.

Cymerodd 300 o bobl o 36 gwlad ran yn y Pencampwriaethau Byd, a gynhelid gan **Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru** (WCIA) gyda chymorth gan CEWC-Cymru a Ffederasiwn Dadlau Cymru. Ymhlith y gwledydd hynny roedd Lesotho, Montenegro a Botswana yn cystadlu am y tro cyntaf. Cynhelid y dadleuon mewn 27 ysgol yn ne a gorllewin Cymru, yn ogystal â Stadiwm y Mileniwm, Cadeirlan Llandaf, Castell Caerffili a Phrifysgol Caerdydd.

Gwnaeth Cymru yn arbennig o dda yn y gystadleuaeth, gan gyrraedd y 5ed safle wedi iddi ennill 7 o'r 8 ddadl yn y gornestau rhagarweiniol. Fodd bynnag, trechwyd Cymru gan Awstralia yn yr ornest ddileu gyntaf.

Mae DVD 35 munud o hyd ar gael yn awr. Mae'n sôn am bob agwedd ar y digwyddiad ac yn cynnwys cyfweliadau a darnau o'r dadleuon. Fe'i cynhyrchwyd gan y corff **media4schools**, ei bris yw £12 ac mae modd ei archebu trwy e-bostio **jamalmaxey@wcia.org.uk**.

Mae WCIA yn diolch i holl noddwyr y Pencampwriaethau Byd, yn arbennig Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Sir Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Sir Gâr, BBC Cymru, LexisNexis Butterworths, Y Cyngor Prydeinig yng Nghymru, Y Comisiwn Etholiadol, Cronfa Boblogaeth y Cenhedloedd Unedig a'r Comisiwn Ewropeaidd.

…CYMRU I YMWELD Â SEOUL

Cynhelir Pencampwriaethau Dadlau nesaf Ysgolion y Byd yn Seoul, De Corea ym mis Gorffennaf 2007, ac mae Cymru newydd ddewis ei thîm.

Cymerodd 57 o ysgolion a cholegau ran ym Mhencampwriaethau Dadlau Ysgolion Cymru Banc Julian Hodge 2006. Buont yn dadlau ar bynciau oedd yn cynnwys ynni niwclear, sesiynau gweddi ffurfiol yn ysgolion y wladwriaeth, adeiladu 'archgasinos', a defnyddio cosbau troseddol yn y fan a'r lle. Wedi'r gornestau gogynderfynol a chynderfynol ar ddechrau mis Tachwedd, cynhelid yr Ornest Derfynol ar 24 Tachwedd yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd. Cynigodd Craig Williams a Lucy Simons o Ysgol Uwchradd Elfed (Bwcle) *"Y byddai y Tŷ hwn yn dechrau tynnu'n ôl lluoedd y Gynghrair o Irac ar unwaith"*. Yn dadlau yn eu herbyn roedd Claire Fitter a David Gregory o Ysgol Howell's, Caerdydd. Wedi dadl gynhyrfus a grymus, penderfynodd y panel beirniadu, sef Julie Morgan AS, Sharon Bloomfield (Banc Julian Hodge), Bethan James (Ffederasiwn Dadlau Cymru), Amy Daughton (Cyngor Sir Caerdydd) a Martin Pollard (CEWC-Cymru) mai Howell's oedd yr enillwyr.

Mae buddugoliaeth Claire a David (uchod) yn golygu iddynt gael eu dewis yn awtomatig i fod yn aelodau o'r tîm fydd yn cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau'r Byd 2007. Yn nes ymlaen dewiswyd tri unigolyn arall i ymuno â nhw, sef Aled Richards-Jones (Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth, Caerfyrddin), Bethan Greaves (Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt) ac Ellen Robertson (Ysgol Pen-coed, Pen-y-bont ar Ogwr).

YSTYRIWCH Y MATER

Mae cyrsiau hyfforddi CEWC-Cymru ar sgiliau meddwl wedi bod yn boblogaidd, felly cysylltwch ar fyrder os carech chi archebu cwrs ar gyfer tymor y gwanwyn neu'r haf. Dyma'r math o sesiwn y medrwn ni ei chynnig:

- Cyrsiau 2-ddiwrnod yn y dull Athroniaeth i Blant (P4C), wedi eu hardystio gan SAPERE
- Cyrsiau undydd rhagarweiniol sy'n cysylltu dinasyddiaeth fyd-eang, sgiliau meddwl, P4C ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol
- Sesiynau arddangos P4C yn yr ystafell ddosbarth

Mae modd darparu hyfforddiant ym maes P4C ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd. Bu cyrsiau diweddar yn gweithio gyda phenaethiaid ym Mlaenau Gwent, athrawon cynradd yn ardal Rhaeadr Gwy a Llandrindod, a chwrs a gynhelid ar y cyd rhwng Ysgol Uwchradd Y Trallwng a'i hysgolion cynradd cyfagos.

Cysylltwch â **martinpollard@wcia.org.uk** am ragor o wybodaeth.

GAN GYNNWYS PAWB

Mae ***Inc*lusion**, prosiect CEWC-Cymru i ddatblygu sgiliau dinasyddiaeth ymhlith pobl ifainc dan anfantais, bellach yn symud i mewn i'r brif ffrwd. Hyd yma bu ein Swyddog Addysg Cynorthwyol Kate Wolstenholme yn gweithio gydag ysgolion arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion ac unedau diogel, gan helpu disgyblion a myfyrwyr i ddefnyddio animeiddio clai i fynegi eu syniadau a'u barn. Mae'r gwaith hwn ar gael bellach i ysgolion uwchradd, ac fel arfer cynhelir sesiwn arddangos gyda Kate, ac yna darperir deunyddiau ysgrifenedig a chefnogaeth i athrawon.

Cysylltwch â **katewolstenholme@wcia.org.uk** os hoffech gymryd rhan.

Y SENEDD IEUENCTID EWROPEAIDD

Ym mis Tachwedd, trefnodd CEWC-Cymru ddwy Fforwm o'r **Senedd Ieuenctid Ewropeaidd**, cystadleuaeth ryngwladol i bobl ifainc sy'n ffocysu ar sgiliau gweithio fel tîm, siarad cyhoeddus a gwaith ymchwil. Enillwyd Fforwm gogledd Cymru, a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Bangor, gan Ysgol Uwchradd Elfed, Bwcle. Enillwyd gornest de Cymru, yng nghyn-Siambr Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd, gan Goleg Gorseinon, Abertawe. Dymunwn yn dda i'r ddau dîm yng nghymal nesaf y gystadleuaeth, sef Cynhadledd Ddethol y DU yn Durham ym mis Medi 2007.

GWEITHGAREDDAU GWANWYN 2007

- Cynhaliwyd **diwrnod hyfforddiant mewn swydd ar ddadlau** (a drefnwyd ar y cyd â Ffederasiwn Dadlau Cymru a'r *English-Speaking Union*) yn y Deml Heddwch, Caerdydd, ar 19 Ionawr 2007.
- Cynhelir pedair **Cynhadledd model y Cenhedloedd Unedig** ym mis Mawrth, gan roi cyfle i ddisgyblion yn ne-ddwyrain a gogledd Cymru i gyd-drafod atebion rhyngwladol i faterion o bwys byd-eang. E-bostiwch **cewc@wcia.org.uk** os oes gennych ddiddordeb yn cymryd rhan.

Agorwch y cylchlythyr i weld poster am **droseddau yn erbyn y ddynolryw**. Mae hwn yn cynnwys gweithred o'r fersiwn newydd o *Dinasyddiaeth Heddiw*, adnodd ar-lein CEWC-Cymru i athrawon. Bydd yr adnodd llawn ar gael ym mis Mawrth.

Dylunio elfen.co.uk

FFÔN (029) 2022 8549 FFACS (029) 2064 0333 E-BOST cewc@wcia.org.uk Elusen gof. rhif 1048759

CEWC-CYMRU Y DEML HEDDWCH • PARC CATHAYS • CAERDYDD • CF10 3AP